# Adroddiad Blynyddol Cynghorydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

**Cynghorydd Malcolm James**

**Ward: Llangynwyd a Chwmfelin**

**Plaid: Plaid Cymru**

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy ngweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben **30 Rhagfyr 2019** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. Barn y Cynghorydd yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn, ac nid ydynt o reidrwydd yn cynrychioli safbwyntiau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

| |
|---|
| **Rôl a Chyfrifoldebau**<br><br>Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli **Llangynwyd** a Chwmfelin ar 7 Mai 2008, May 2012 a chefais fy ail-ethol am drydydd tymor ym Mai 2017. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o rolau o fewn y Cyngor eleni gan gynnwys cael fy mhenodi i sawl pwyllgor. Fi yw Dirprwy Arweinydd Plaid Cymru ar hyn o bryd<br><br>Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac rwyf wedi codi'n ffurfiol dros 80 o ymholiadau etholwyr gyda'r Cyngor a sefydliadau eraill yn ystod y 12 mis diwethaf. Mae hyn yn ychwanegol at fynd i'r afael yn anffurfiol â nifer o faterion eraill yr ydych wedi gofyn i mi eich helpu i'w datrys.<br><br>I'm galluogi i gyfiawnhau fy rôl fel eich cynrychiolydd, rwyf wedi mynychu sawl Gweithgaredd Datblygu Aelodau sydd wedi fy nghynorthwyo i sicrhau fy mod yn cynnal fy ngwybodaeth o faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y Cyngor a fy ward.<br><br>Mae rhagor o wybodaeth am fy **rolau, cyfrifoldebau a gweithgareddau** i'w gweld drwy ddilyn y ddolen hon. |
| **Gweithgaredd Etholaeth**<br><br>Fi yw Llywodraethwr Ysgol y Cyngor Bwrdeistref ar gyfer Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd, lle rwyf yn eistedd ar y Pwyllgorau Cwynion ac Apeliadau, Cyllid ac Iechyd a Diogelwch.<br><br>Ar Ddydd Gŵyl Dewi, mynychais Ysgol Gynradd Llangynwyd trwy'r dydd, lle bues yn beirniadu cystadlaethau ac yn cyflwyno gwobrau i'r plant. |
| |

| |
|---|
| **Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**<br><br>Rwy'n aelod sefydlu ac yn un o feistri Cwis presennol tîm cwis y Railway Inn sy'n codi arian ar gyfer elusennau lleol ac wedi gwneud ers dros 25 mlynedd. |
| **Gweithgareddau/Materion Eraill**<br><br>Fi hefyd yw'r Siôn Corn yn un ô'n Tai Cyhoeddus lleol<br>Ac rwyf yn helpu wrth y fynedfa yng nghlwb Pêl-droed a Rygbi Maesteg Harlequins yn Rhodfa'r De, lle rwyf yn aelod pwyllgor<br>Rwy'n cefnogi Cymdeithas Operatig Maesteg, The Gleemen ac yn mynychu eu digwyddiadau yn aml. |
| **Cynghorydd Malcolm James :** **Dyddiad: 10/1/2020** |